

Cenn@d

MAWRTH 1 2023

YN CYNNWYS Y GOLEUAD A SEREN CYMRU

RHIF 105



Ynghudd, o dan gochl y sachliain a lludw cyhoeddus, onid tipyn o embaras bellach yw'r cannoedd o gapeli diaddurn sy'n britho ein broydd? Yn ein Cymru fodern, flaengar a 'rhyddfrydig' ni, 'lluniau' seipia mewn bocs cardfwrdd o oes sydd bellach wedi diflannu ydynt. Atgof o fywyd a giliodd. Rhywbeth sy'n achosi rhyfeddod yw dychmygu'r bywyd oedd ynghlwm â hwy, fel rhywun yn ei arddgau'n darganfu llun wedi colli ei liw o'nain mewn bicini!

Da y dywedodd Grahame Davies:

Nid testun balchder, o ddfri,
Yw bod Bethelau'n britho ein bro;
nid testun tristwch yw eu tranc.
Cofebau ydynt i'n cecru;
meini ein hymraniadau
a godwyd yn enw cariad
i gadw cymdogion ar chwâl.

Er hyn, yn y byd newydd, dewr, hwn, bydd yr anghydfurfyrwyr mwyaf cenedlaetholgar, y seciularwyr mwyaf digrefydd a'r Eglwyswyr mwyaf pybyr, oll am ran o Ddewi – hyd yn oed os mai gfael blaen ewin yn unig yw'r cyswllt hwnnw!

Beth tybed yw ystyr sôn am 'Ddewi, ein *nawddsant*' mewn gwlad a Brotestaneiddiwyd drwy Feibl William Morgan, drwy bregethiad y Gair a gweithgaredd yr Ysbryd Glân? Beth yw ystyr 'nawddsant' mewn gwlad a seciwlareiddiwyd ac a gefnodd yn fwrriadol ar yr Hwn a dorrodd i mewn i fywyd Dewi?

Awgryma gwefan [Eglwys Gadeiriol Tyddewi](#) fod yr allor a adnewyddwyd i Ddewi yn ffocws i weddiâu llawer o bobl. Mae Dewi Sant, meddir (yn Saesneg yn unig!), yn symbol o Gymru, yn ffigur y gall Cymry ledled y byd droi ato. Dydd i ddathlu cymeriad a diwylliant Cymru yw Mawrth 1af, meddant.

O neuaddau cyngerdd ysblennydd i westai moethus, a hyd yn oed i hyrwyddo St David's Gin, tynnir ar enw Dewi. Ond beth mewn gwirionedd sydd gan Dewi, y mynach asetig, yn gyffredin â chanolfan siopa yng Nghaerdydd [a phleidlais mewn etholiad](#)?

Mor denau yw cynnwys cwlt Dewi Sant. O dan bwysau cenedlaethol, tynnwyd Dewi

Dathlu Gŵyl Ddewi?

yn ôl o unigedd ei gella'i hunanddisgyblaeth lem. Boddwyd Dewi Ddyfrwr mewn môr o gawl cennin; claddwyd Dewi o dan domen o bicau ar y maen a mudwyd ei lais gan lu o anerchiadau ffraeth siaradwyr gwadd ein dathliadau.

Cuddiwyd o'r golwg y gŵr duwiol a roddodd ei fryd ac a dreuliodd ei oes, costied a chostio, i ddwyn y newyddion da am Iesu Grist i'w gyd-wladwyr.

Y cyntaf o Fawrth oedd hi yn y flwyddyn 589. A thynnodd Dewi ei anadl fenthyg olaf.


Beth tybed feddyliai Dewi fyddai ei waddol? Heblaw am ambell achos a sefydlwyd ganddo a'r ychydig fynachod a drigai gydag ef, beth oedd ganddo i'w adael yn ei 'ewylllys' i'w gymdeithas? Onid oedd yn fwrriadol wedi cefnu ar gyfoeth, ar lysoedd tywysogion ac ar loddesta, i fyw bywyd syml a duwiol? Tybed a feddyliodd am foment y byddai unrhyw rai, y tu hwnt i gof cenhedlaeth ei gyd-weithwyr, yn adrodd am ei ymdrechion y tu hwnt i hynny?

Pwyfyddai'n cofio am ei hunanddisgyblaeth lem, ei gell dlawd, ei deithiau drwy 'Gymru' a thiroedd Prydain gan sefydlu, yn ôl yr hanes, fynachlog mor bell â Glastonbury?

A gofient am ei bererindod i Jerwsalem a'i urddo'n esgob yno? A orweddodd wrth i'w anadl brinhau yn meddwl am epigraff cofiadwy, am fod yn llawen, am gadw'r fydd a gwneud y pethau bychain y bu ef ei hun yn esiampl ohonynt? Ni chroesodd ei feddwl, mae'n siŵr, y byddai Pab yn Rhufain, ymhen y rhawd, yn ei ganoneiddio'n Sant (Callactus II, 1120 OC)! Onid digon ganddo fyddai cael ei gyfrif ymhlith y rhai a sancteiddiwyd drwy Iesu Grist, trwy air Duw, a thrwy dystiolaeth yr Ysbryd Glân?

Fel blwch tywyll ar alwad Zoom, ymddengys enw Dewi fel un sy'n bresennol yng nghyfarfod ein cwmwl tystion cenedlaethol. Cawsom Dewi, er na cheisiam ef na'i debyg.

Yng nghyfarfodydd 'hanes y Cymry', er i'w lais gael ei wneud yn fud, ers ei bresenoldeb yn dystiolaeth i rywbeth mwy na'r ffasiwn ddiweddaraf mewn marchnata. Erys Dewi yn dystiolaeth i ddaioni Duw tuag at ein pobl, ein hil a'n tras.



Llun: Trwy ganiatâd Robert Freidus: <https://victorianweb.org/misc/freidus.html>

Daeth Dewi yn ei ddydd yn dyst i alluoedd ysbrydol mwy na phaganiaeth ei oes. Daeth gan dystio i grêwr y byd. Daeth yn dyst i Arglwydd a dorrodd i mewn i fyd o hanes i brynu ei eiddo yn ôl.

Wrth gofio am Dewi, fe gofiwn am drugaredd Duw tuag at ein cenedl, o ddyddiau cynharaf ein hiaith, hyd heddiw. Rhyfeddwn at yr adegau anghyffredin o fendith a dywalltwyd ar ein gwlad pan oedd Cymru gynt yn gorwedd mewn rhyw esmwyth, farwol hun. Ac er ein bod yn cofio mai drwy lestri digon amherffaith, drwy bobl a ffurfiwyd o glai eu hoes y daeth y bendithion i'n gwlad, ni phallwn rhag diolch am y ffyddlondeb dwyfol, grasol, hwnnw i'n pobl drwy bob cenhedlaeth.

Pan fo 'Bethelau' a sefydliadau crefyddol ddoe yn parhau i ddadfeilio, fe ddiolchwn nad mewn adeiladau mawreddog nac mewn blychau diaddurn, dros dro, y costrelwyd rhinwedd tystiolaeth Dewi. Cymunedau o bobl, cymdeithasau o addolwyr, seiadau o gredinwyr, cwmwl o dystion, sydd wedi bodoli drwy hanes ein cenedl, yw ei waddol am mai dyna yw hanfod eglwys Iesu Grist a'i thystiolaeth.

Ac wrth i unigolion gymryd Iesu Grist yn Arglwydd i'w calonnau, i'w cartrefi, i'w cymunedau a'u broydd, fe fydd disgynyddion 'Dewi' yn parhau yn y tir i addoli ac i dystio i ogoniant yr hwn a'n prynodd iddo'i hun.

Diolch Iddo!

RWJ

Un funud fach ...
Ar lwybrau'r pererinion
Tudalen 2

Harvey Thomas a'i gefl
Tudalen 3

Rhyfel Wcraïn –
flwyddyn yn ddiweddarach
Tudalen 7

Un funud fach ...

Ar lwybrau'r pererinion

Rhannwn â'r pererinion – y ffordd hen,
Eu ffordd hwy sydd ddigon;
Byw'n deithiwr y bendithion
O droedio holl droedau hon.

Y Prifardd Jâms Nicholas

Dros adeg Gŵyl Ddewi mae geiriau enwog ein nawddsant yn atseinio yng nghlustiau'r Cymry yn ein heglwysi, ein hysgolion a'n cymdeithasau: 'Byddwch lawen, cadwch y ffydd a gwnewch y pethau bychain a welsoch a glywsoch gennyf i.'

Dyfyniad syml ond pwerus sydd wedi sefyll prawf amser. Roedd gweinidogaeth Dewi yn llawn gwyrdhiau a geiriau doeth, ac o achos hynny mae llawer wedi ceisio dilyn yn ôl ei droed, drwy fynd ar bererindod i Dyddewi yn sir Benfro. Fel merch y 'Wes Wes', mae yna falchder o fod yn enedigol o'r sir unigryw yma.

Ac wrth feddwl am Dyddewi a'r pererinion dros y canrifoedd sydd wedi mentro ar y daith i'r ddinas fach ger y môr, gadewch i ni gymryd un funud fach i fyfyrion ar bwysigrwydd mynd ar bererindod, a beth gall pererindod ei gynnig i ni yn awr?

Diffiniad y gair 'pererin' yn y Geiriadur yw hyn: 'rhywun sydd yn mynd ar daith hir am resymau crefyddol neu foesol.' Mynd ar daith i ddod o hyd i atebion, i gamu 'nôl o'r byd prysur, ac yn bennaf i fod yn agos at Dduw. Ond, a oes angen cerdded i ryw fannau ysbrydol i gamu 'nôl a theimlo agosrwydd i'r Arglwydd?

Er y byddai'n braf cerdded drwy bentrefi fel Solfach ac Abereiddi i gael gweld creadigaeth Duw ar ei gorau cyn cyrraedd yr eglwys gadeiriol, dydy hyn wrth reswm ddim yn ymarferol i lawer. Felly, mae angen i bawb ddod o hyd i'r manau a'r adegau hynny lle rydym yn teimlo'r agosrwydd hynny at Dduw.

Mae William Williams, Pantycelyn, yn un o'i emynau enwocaf, yn dweud hyn:

Pererin wyf mewn anial dir
yn crwydro yma a thraw,
ac yn rhyw ddisgwyl bob yr awr
fod tŷ fy Nhadr gerllaw.

Fel Cristnogion, fel pobl o ffydd, rydym yn crwydro yma a thraw yn edrych am y Duw Byw yn ein byd o'n cwmpas. Y drafferth y mae llawer ohonom yn ei hwynebu yw ein bod yn cau ein hunain bant o weld



Llun: Trwy ganiatâd Robert Freidus: <https://victorianweb.org/misc/freidus.html>

ein Harglwydd yn y pethau bychain sydd yn digwydd o ddydd i ddydd. Mae pob dydd neu, fel geiriau'r emyn, mae pob awr yn gyfle i fod yng nghwmni Duw, ac i weld cariad Duw ar waith. Rydw i wir yn credu'n gryf ein bod ar bererindod yn gyson.

Mae pob llaw sydd yn cael ei hymestyn i helpu, pob darn arian sydd yn cael ei roi fel cyfraniad i elusen, pob cwtsh pan mae wir ei angen – yn gariad Duw ar waith.

Oes, mae angen cymryd amser i feddwl a diolch i Dduw a dod yn agosach ato. Ond gadewch i ni gofio bod pob person wedi cael ei greu yn nelwedd Duw. Ac wrth gofio hynny mae Duw yn agos o hyd, ac efallai mai'r bererindod fwyaf y gallwn ei gwneud yn ystod Gŵyl Dewi eleni yw ceisio gweld Duw ym mhob gweithred o garedigrwydd, ym mhob person sydd yn dod ar draws ein llwybr.

Sian Elin Thomas

Dydd Gweddi'r Byd – 3 Mawrth 2023

Dros y Sul bydd cynulleidfaoedd ar draws y byd yn rhannu mewn gwasanaeth a baratowyd gan chwirydd Cristnogol Taiwan. Thema'r gwasanaeth fydd 'Clywais am eich ffydd'. Ac o wybod am brofiad eglwys Taiwân a'r bygythiadau gwleidyddol i'r ynys bydd y gwasanaeth, mae'n siŵr, yn obeithiol, yn llawn anogaeth ac yn heriol i bob un ohonom fydd yn mynychu'r oedfa.


Tra ydych wrthi'n paratoi'r gwasanaeth ac yn ei gynnal, beth am anfon llun o'r gweithgaredd a'r hyn a wnaed gennych i rannu yng ngweddiâu cynulleidfaoedd ar draws y byd?

Anfonwch unrhyw luniau atom yn ddiymdroi. Byddai capsiwn bychan, byr, yn gymorth i gynulleidfaoedd eraill i rannu yn eich dathliad.

O ran cwrteisi, peidiwch â chymryd yn ganiataol y bydd pawb sydd yn y capel am gael tynnu eu llun. Gofynnwch am ganiatâd gan bawb cyn tynnu'r llun, gan roi cyfle i unrhyw rai na fyddant am fod yn y llun i symud o'r neilltu.

Os ydych yn cynnwys lluniau plant, a fydech cystal â sicrhau bod caniatâd gennych i dynnu'r lluniau a bod gan *Cenn@d* yr hawl i'w cyhoeddi, os gwelwch yn dda?

Peidiwch â chymryd yn ganiataol fod pobl yn fodlon heb ofyn iddynt.



Harvey Thomas a'i gelf



Diolch i Gruffydd Aled Williams am ei erthygl ddiddorol yn [rhifyn 102 \(8 Chwefror\)](#) o *Cenn@d* yn tynnu sylw at waith cerflunio a dylunio Harvey Thomas, achrochendyprysur A & M Griffiths, Felingwm, ger Nantgaredig. Cyfeiriodd at dri cherflun Cymreig o waith Harvey Thomas, sef William Morgan, Griffith Jones, Llanddowror, a Mary Jones. Fel tipyn o gasglwr llestri fy hun, dwi'n ffodus i fod yn berchen ar gopi o'r tri darn, ac i ddweud y gwir mae gen i DDAU gerflun William Morgan yn fy meddiant. Cynhyrchwyd 88 ohonynt yn 1988, a gan mai honno oedd y flwyddyn y cychwynnais i ar fy nhaith fel gweinidog, a hynny yn ardal Pontrhydfendigaid a Swyddffynnon, fe brynodd Mam gopi i mi i nodi'r flwyddyn.

Sut felly bod gen i ddau ohonynt erbyn hyn? Wel, ychydig flynyddoedd yn ôl cynhaliwyd arwerthiant yng Nghaerfyrddin, lle roedd llawer iawn o eitemau Harvey Thomas ar werth. Wedi siarad gyda'r arwerthwr esboniodd fod y rhain wedi dod o ystad Harvey ei hun, yn dilyn ei farwolaeth yn 2017. Roeddwn wedi bod yn chwilio am Mary Jones ers blynyddoedd, ac roedd un yn yr arwerthiant hwn, ond yn anffodus roedd yn cael ei werthu fel un o bâr, ac ie, William Morgan oedd ei phartner. Doedd dim amdani, felly, er mwyn sicrhau Mary, roedd yn rhaid prynu William hefyd (ac os oes 'na ddarllenwyd *Cenn@d* allan

yna'n chwilio am William, mae croeso i chi gysylltu â mi i geisio taro ar fargen!).

Fel mae'n digwydd, o Gaerfyrddin ddaeth Griffith Jones, a hynny o siop antics oedd wedi llwyddo i brynu holl lyfrau a henebion y diweddar Barchedig Edwin C. Lewis. Wedi galw yn y tŷ gydag Edwin yn Rhydargaeau droeon, roeddwn wedi edmygu'r cerflun ganddo, ac o gofio am fy ngwaith bob dydd fel trefnydd gwaith ysgolion Sul, roedd gen i ddiddordeb arbennig yn y cerflun hwnnw.

Cyfeiria Gruffydd Aled hefyd at y platiâu Cofio'r Cymry. Mae tua 12 o blatiau yn y gyfres, gyda nifer ohonynt yn arweinwyr Cristnogol. Yn y llun, fe welwch bedwar ohonynt, sef William Morgan, William Williams, Dewi Sant a Gwenallt. Plât arall diddorol a gynhyrchwyd ganddo oedd un â llun enwog Salem gan Curnow Vosper wedi'i argraffu arno.

Yn y llun o'r cerfluniau fe welwch ambell gerflun arall hefyd o ddiddordeb crefyddol. Y ficer bach yn dal ei Feibl yw Eli Jenkins, un o gymeriadau Dylan Thomas, ac a gynhyrchwyd gan y Welsh Crest China Company. Bydd llawer efo'r cerflun bach o'r te Cymreig ar eu dresel, ond yn y llun, fe welwch fod 'na ficer neu weinidog wedi stwffio'i hun i mewn hefyd, a'r capswn ar y gwaelod yn darllen, 'A pastoral visit

from the Revd Jones'. Cerflun bychan a gynhyrchwyd yn yr Almaen oedd hwn, fel 'fairings', sef gwobrau mewn ffair, ac eto, mae rhywbeth yn 'Gymreig' iawn am yr addurn hwn.

Bydd llawer ohonoch â jygiau copr llystr ar eich dresal, dwi'n siŵr, ac fel arfer ceir dawnswraig neu ewig neu flodau ar yr wyneb. Mi lwyddais i gael hyd i jwg, flynyddoedd yn ôl, â llun o olygfaf'r geni ar yr wyneb. Credwch fi, does dim llawer o'r rhain i'w cael, ac er mod i wedi cael cais i chwilio am un i gasglwr brwd arall, dydw i ddim wedi gweld un ar werth yn unlle yn ystod y pum mlynedd diwethaf hyn. Darn difyr o gelf yn y llun hefyd yw'r un o fachgen ifanc, blêr yr olwg, a'r capswn 'Gin' oddi tano. Os trowch y darn o gwmpas 180 gradd, fe welwch yr un bachgen, a golwg glandeg arno, â'r capswn 'Water'. Dyma gelf yn anterth y cyfnod dirwestol.

Mi fyddaf yn derbyn gwahoddiadau i siarad am lestri mewn cymdeithasau capeli a changhennau Merched y Wawr yn gyson i ddangos rhai o'r rhain. Fel arfer, rywle yn y llith o gyflwyniad y bydda i'n ei derbyn fel croeso, fe fydd rhywun yn siŵr o ddweud, 'A be ma'r llyfr mawr yn ei ddeud, d'wch, am gasglu trysorau lle mae gwyfyn a rhwd yn difa?' Sut mae ateb peth felly, dwn i ddim – ond beryg bod blas y pridd yn y llestri yn fy ngwaed erbyn hyn.

Aled Davies

Tybed a oes gan rywrai o ddarllenwyr *Cenn@d* unrhyw eitemau celf/crochenwaith o natur grefyddol yn eu meddiant? Beth am yrru llun a phwt bach i ni efo'r hanes?



Cymorth Cristnogol yn cyhoeddi Pennaeth Cymru Dros Dro

Mae'r elusen Cymorth Cristnogol wedi cyhoeddi mai Pennaeth Cymru Dros Dro fydd Andrew Sully.

Bydd Andrew, sydd wedi bod yn eiriolwr dros Gymorth Cristnogol ers sawl blwyddyn, yn cymryd lle Mari McNeill tra bydd hi ar gyfnod mamolaeth.

'Mae Andrew yn adnabyddus i'n cefnogwyr yng Nghymru. Felly rwy'n falch iawn y bydd yn ymuno â ni,' meddai Prif Weithredwr Cymorth Cristnogol, Patrick Watt.

Cafodd Andrew ei eni yn Munster, yr Almaen, lle roedd ei dad yn athro yn un o ysgolion y Lluoedd Arfog. Cafodd ei fagu yng Nghasnewydd, cyn iddo symud i astudio ledled Lloegr – o Southampton i Lundain a Birmingham.

Ddeg ar hugain o flynyddoedd yn ôl, ordeiniwyd Andrew a'i wraig, Mary, i weinidogaeth yn yr Eglwys yng Nghymru gan Rowan Williams. Ers hynny, maen nhw wedi byw mewn sawl man, a byddant yn symud i Gaerdydd yn fuan, gyda'u dwy ferch, lle bydd Mary yn dechrau ar ei gwaith fel Esgob Llandaf.

Dyweddodd Andrew: 'Mi wnes i ddod yn fwy gweithgar o ran fy ffydd a'm gwleidyddiaeth ar ôl gweithio gyda'r SCM fel ysgrifennydd rhanbarthol yn y de. Ar ôl bod yn Swyddog Eciwmenaid



mewn tair esgobaeth, mi ges i secondiad i weithio gyda Cytûn, Eglwys Ynghyd yng Nghymru, fel Swddog Maes Gogledd Cymru.

'Yn ystod yr amser yma, mi ddes i'n feiciwr brwd, gan gymryd rhan mewn sawl ymgyrch a digwyddiad i godi pres at Gymorth Cristnogol. Fe wnes i feicio o Whitehaven i Whitby, o Lundain i Baris, ac o Lundain i Copenhagen ar gyfer trafodaethau Newid Hinsawdd COP 15. Yn fwy diweddar, cerddais Daith y

Cestyll, oedd yn cysylltu 22 o gestyll yng ngogledd Cymru, gan godi dros £10,000 i Gymorth Cristnogol.

'Rwy'n ymgyrchydd cryf dros gyfiawnder, heddwch a chyfanrwydd y greadigaeth. Urddas dynol, cydraddoldeb a materion cyfiawnder byd-eang sydd wedi achosi'r anniddigrwydd mwyaf i mi yn fy mywyd ac rwy'n edrych ymlaen yn fawr at rôl sy'n ffocysu ar y weledigaeth yma gyda Chymorth Cristnogol yn y flwyddyn sydd i ddod.'

Cyfarfodydd trefnu Pabell yr Eglwys yn y prif wyliau cenedlaethol

Eisteddfod yr Urdd, Sir Gaerfyrddin, 29 Mai–3 Mehefin 2023

Cynhelir cyfarfod o dan nawdd Cytûn: Eglwys ynghyd yng Nghymru a'r Cyngor Ysgolion Sul **am 7.00y.h. nos Lun, 6 Mawrth, yng Nghapel Providence, Llangadog**, i drafod presenoldeb a chenhadaeth yr eglwys ar faes Eisteddfod yr Urdd yn Llanymddyfri eleni.

Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd, 24–7 Gorffennaf 2023

Cynhelir cyfarfod o dan nawdd Cytûn: Eglwys ynghyd yng Nghymru **am 1.00 bnawn Llun, 6 Mawrth, yng Nghanolfan y CCRW ar faes y Sioe**, i drafod tystiolaeth a chenhadaeth yr eglwys dros gyfnod wythnos y Sioe eleni.

Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd, Boduan, ger Pwllheli, 5–12 Awst

Cynhelir cyfarfod o dan nawdd Cytûn: Eglwys ynghyd yng

Nghymru **am 7.00 nos Fawrth, 7 Mawrth, yn festri capel Penlan yng nghanol tref Pwllheli**, i drafod tystiolaeth a chenhadaeth yr eglwys dros gyfnod wythnos yr Eisteddfod eleni.

Bydd yn braf dechrau cynllunio eto ar gyfer y gwyliau cenedlaethol, wrth i ni baratoi i groesawu ymwelwyr i'r stondinau, ac fe'ch gwahoddir i gyfarfod er mwyn trafod syniadau / thema a pha weithgarwch lleol y gellir ei gynnwys o fewn y babell. Bydd angen gwirfoddolwyr hefyd i groesawu a chynnal gweithgareddau, yn ogystal â rota helaeth o bobl i fod yn gyfrifol am y te a'r gegin. Byddem yn gwerthfawrogi petai modd i chi hefyd rannu'r neges hon mor eang â phosib â'ch cysylltiadau lleol, os gwelwch yn dda. Croeso cynnes i bawb. Am fanylion pellach, cysylltwch ag Aled Davies ar 07894580192 neu aled@ysgolsul.com

Y Parchedig Wynn Vittle

Roedd cyfiawnder yn air allweddol yn ei galon ynghyd â'i eirfa.

Yn anogaeth y Pregethwr gynt, 'Beth bynnag yr ymafla dy law ynddo i'w wneuthur, gwna â'th holl egni', ceir darlun cywir o Wynn Vittle. Un o nodweddion amlycaf ei gymeriad oedd ei ddiwydrwydd, ei frwdfrydedd a'i ymroddiad llwyr i'w waith. Ymhob tasg yr ymgymerau â hi gweithiai'n egniol ac yn ddiarbed ohono'i hun.

Un ydoedd nad anghofiodd erioed y graig y naddwyd ef ohoni. Fe'i ganed yn ardal Pen-caer, sir Benfro, yn fab i Fred ac Annie Vittle, Fferm Llanwnda, a'i dad â busnes llaeth yn y fro. O dan gyfarwyddyd Waldo, oedd yn ffrind i'r teulu, fe'i henwyd yn 'Wynn' (gyda dwy 'n', sef y ffurf Gymraeg ar yr enw).

Fe'i codwyd i'r weinidogaeth yn eglwys Harmoni, Pen-caer, yn ystod cyfnod gweinidogaeth y Parchedig John Young, a oedd yn arwr mawr iddo. Ar ddiwedd ei gwrs yng Ngholeg Myrddin, Caerfyrddin, a Choleg y Bedyddwyr, Bangor, fe'i hordeiniwyd a'i sefydlu'n weinidog yn 1959 yn eglwysi Bethania, Talog a Noddfa, Foelcwan. Ymhen pum mlynedd derbyniodd alwad i fugeilio eglwysi Calfaria, Pen-y-groes a Horeb, Penrhiw-goch. Yna, yn 1972, fe'i hapwyntiwyd yn Ysgrifennydd Cenedlaethol Cymorth Cristnogol. Yn ei gyfrol *Ehangu Gorwelion*, y mae'n olrhain hanes y mudiad yng Nghymru a thu hwnt, ac o'i darllen ni ellir ond rhyfeddu at faint llafur Wynn, yn trefnu, gweinyddu, teithio Cymru, a theithio'r byd.

Nid swydd oedd hon i Wynn, ond galwedigaeth ac estyniad o'i weinidogaeth. Roedd yr anghyfiawnderau a ddiodefai trueiniaid byd yn pwysu'n drwm arno, ac ymdeimai i'r byw â'r angen i'w cynorthwyo. Roedd cyfiawnder yn air allweddol yn ei galon ynghyd â'i eirfa, a geiriau megis eiddo Amos, 'Ond llifed barn fel dyfroedd, a chyfiawnder fel afon gref' yn gymhellid cryf iddo. Heb os, bu oraclau proffwydi'r Hen Destament, dysgeidiaeth Iesu o Nasareth (yn enwedig y Gwynfydau, gweddill y Bregeth ar y Mynydd, a damhegion megis Barnu'r Cenhedloedd, Mathew 25:31-46), ynghyd â gweledigaeth Waldo, yn ysgogiad mawr iddo.

Yn dilyn yn agos i ddeunaw mlynedd o wasanaeth diwyd yn y swydd arbennig hon, dychwelodd Wynn i'r weinidogaeth fugeiliol yn eglwysi Aberduar, Llanybydder; Bethel, Dre-fach; Seion, Cwrtnewydd a Brynhafod, Llanwenog.

Yna daeth amser ymddeol (gair amhriodol iawn wrth feddwl am Wynn!), ac yntau a'i briod, Nia, yn ymgartrefu ym Mryn Tywi, Llangynnwr, ac yn ymaelodi yn eglwys y Tabernacl, Caerfyrddin, lle bu'r ddau yn neilltuo o ffyddlon a chefnogol, fel y buont yn eglwys y Tabernacl, Caerdydd. Gwnaed Wynn yn Weinidog Anrhydeddus yr eglwys.

Ac yna daeth yr ergyd fawr, bymtheng mlynedd yn ôl, gyda marw Nia. Roedd hon yn golled anaele i Wynn, a'r plant, Arwel a Meinir, ac er iddo ymdopi'n rhyfeddol ar ôl hyn, ni bu bywyd byth yr un fath iddo. Enw llawn Nia oedd Nia Valentine – ei mam yn chwaer i'r Parchedig Lewis Valentine – ac o gyplysu enwau Lewis Valentine a Waldo, dyna esbonio (yn sicr yn rhannol)



pam yr oedd Wynn yn Gymro mor frwd. Dyma dystiolaeth Wynn ei hunan am Nia: 'bu cefnogaeth gadarn Nia yn gaffaeliad amhrisiadwy i mi'.

Nid yr eglwysi, ac nid Cymorth Cristnogol yn unig a elwodd o wasanaeth Wynn. Bu'n aelod o fwy nag un o bwyllgorau Undeb Bedyddwyr Cymru, megis Pwyllgor yr Eglwys a Chyfrifoldeb Cymdeithasol. Bu'n Ysgrifennydd Cymanfa Bedyddwyr Caerfyrddin a Cheredigion, ac ef yn awr oedd cofnodydd hanes diweddaraf yr eglwysi yn yr Adroddiad Blynnyddol. Cyfrannai'n frwd at drafodaethau Cymdeithas y Gweinidogion yng Nghaffi Beca, Efail-wen. Bydd pwyllgor Llyfrau Llafar, Caerfyrddin, yn sicr o weld ei golli, ac yntau'n ysgrifennydd iddo, a'r un modd fudiad Cristnogaeth 21, a'i gyfraniadau i'w e-fwletin bob amser yn heriol. Cefnogaai Amnest Rhyngwladol yn gyson.

Ni roddai dim mwy o foddhad iddo na'r gwaith o bregethu'r Gair, a gwnâi ei orau i berthnasu'r Efengyl ar gyfer amgylchiadau heddiw. Nodaf un enghraifft. Yn ystod y cyfnod clo rhoddwyd inni dri gorchymyn: gwisgwch fwgwd; cadwch eich pellter; golchwch eich dwylo. Meddai Wynn, dyma'r union dri pheth NA ddylai'r eglwysi eu gwneud, sef ymguddio; mynd i mewn i'w cragen; pellhau, gan 'anghofio'r byd a'i loes'.

Bu Wynn yn gyfaill da a chywir i lawer ohonom, gan gynnwys yr eglwysi y gwasanaethai ynddynt ar y Suliau. Cofiwn amdano fel cwmniwr diddan, cyd-weithiwr diflino, cymwynaswr parod, Cymro di-ildio, Cristion a gredai'n angerddol fod 'ffydd heb weithredoedd yn farw', ac yn anad dim fel gweinidog da i Iesu Grist.

Tristawyd pawb a'i hadnabu gan y newydd am ei farwolaeth ar 23 Ionawr 2023, ac afraid dweud y gedy fwllch mawr ar ei ôl. Cynhaliwyd ei wasanaeth angladd yng nghapel y Tabernacl, Caerfyrddin ddydd Llun, 13 Chwefror, a'r gynulleidfa luosog a ddaeth ynghyd yn tystio i'r parch dwfn a deimlid tuag ato. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'i deulu oll, yn enwedig ei blant, Arwel a Meinir.

Desmond Davies

Rhodd Gostus Crist o Gymod

Cyfres o fyfyrddodau ar gyfer y Grawgan yr Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon (CTBI)

Wythnos 2

“Eglwys Noddfa ar gyfer byd tymhestlog.”

Ysgrhythur: Hebreaid 13:1-3

Myfyrdod

Yr wythnos diwethaf canolbwyntiwyd ein gweddïau a'n myfyrdodau ar erchyllterau rhyfel a chyfrifoldeb yr Eglwys i hyrwyddo cymod. Yr wythnos hon, myfyriwn ar ein hymatebon i un o drasiedïau rhyfel – dadleoliad pobl – gyda'r perygl, y golled a'r gwahanu a ddaw yn sgil hyn.

Yn ei hapêl fyd-eang ar gyfer 2023, amcangyfrifodd [Asiantaeth Ffoaduriaid y Cenhedloedd Unedig \(UNHCR\)](#) fod nifer y bobl a gafodd eu dadleoli drwy orfodaeth yn 100 miliwn – y nifer mwyaf a gofnodwyd erioed. Mae hon yn broblem fyd-eang lle gall yr eglwys leol wneud cyfraniad o wir gymorth.

Mae CTBI yn gweithio gyda'r Parchedig Ddr Inderjit Bhogal, a sefydlodd y mudiad Dinas Noddfa, er mwyn annog a chefnogi ein haelodau i ddod yn [Eglwys Noddfa](#). Dyma dystiolaeth arwyddocaol o ymrwymiad yr Eglwys i egwyddorion lletygarwch a chefnogaeth, wedi eu hysbrydoli gan ein ffydd Gristnogol, a lle nad yw croeso wedi ei gyfyngu i'n cyd-Gristnogion. Mae'r cysyniad o noddfa yn hen egwyddor, ac mae'n datgan mewn cyd-destun crefyddol y dylai safle sanctaidd fod yn fan diogel i bawb.

Mae'r myfyrdod o'r Ysgrhythur heddiw yn cysylltu cydsefyll ag empathi – sut fyddem ni am i bobl ymateb pe baem ninnau'n ein cael ein hunain mewn



sefyllfa beryglus, wedi ein cam-drin, ac fel dieithriaid yn cyrraedd rhywle a diwylliant anghyfarwydd? Cawn ein hatgoffa hefyd nad y gwestai yn unig sy'n elwa o fuddion lletygarwch, ond bywydau'r sawl sy'n rhoi llety drwy gwrdd a rhannu.

Pan fyddwn yn casglu storïau o eglwysi noddfa, rydym yn falch o weld eu bod yn gwrthgyferbynnu'n llwyr â'r iaith a glywn ar adegau neu a ddarllenwn yn y cyfryngau ac sy'n tueddu i drin pobl fel gwrthrychau yn unig. Bu'r blynyddoedd diweddaraf hyn yn arbennig o anodd i lawer o bobl yn ein cymunedau wrth i argyfwng brawychus mewn costau byw ddilyn ar sodlau pandemig dinistriol.

Mae yna berygl gwirioneddol y bydd pobl yn blino ar ddangos tosturi wrth i rai sy'n cael pethau'n anodd eu hunain deimlo nad oes ganddyn nhw ddigon i'w rannu. Ac mae'n bosib i grwpiau a chymunedau bregus gael eu trin fel pe baen nhw mewn cystadleuaeth yn erbyn ei gilydd; gall hyn arwain at ddieithrio, gwrthod ac ynysu, sydd yn cynyddu'r dioddefaint. Yn aml, pobl sydd yn ceisio lloches fydd ymhlith y mwyaf bregus ohonyn nhw i gyd, gyda statws cyfreithiol ansicr, dim cartref a rhwydweithiau cymorth gwan.

Ar y cyfan, yn ein cymdeithas yn yr ynysoedd hyn, mae gennym ni adnoddau digonol i sicrhau bywyd urddasol i bawb, cyn belled â'n bod yn sicrhau bod yr adnoddau hynny'n cael eu rhannu'n decach mewn modd sy'n gwarchod lles pawb. Yn y cyfarfodydd a drefnir gan yr eglwys noddfa, caiff pobl eu helpu i sylweddoli ein bod yn gryfach pan fyddwn yn sefyll gyda'n gilydd a bod y cydsafiad hwnnw'n cynhyrchu gobaith a gwytnwch.

Cwestiynau

- Beth mae bod yn eglwys noddfa yn ei olygu i'r Eglwys?
- I ba raddau ydych chi'n cael profiad o'ch eglwys fel noddfa yn eich cyd-destun enwadol lleol neu eciwmenaidd?
- Sut allai'r gwerthoedd sydd yn sail i'r mudiad Eglwys Noddfa drawsffurfio'r modd y mae materion sydd yn ymwneud â ffoaduriaid a lloches yn cael eu portreadu yn y cyfryngau?

Camau Gweithredu

- O adran Newyddion [gwefan UNHCR](#), dysgwch am yr ymateb i ffoaduriaid mewn rhannau eraill o'r byd. Beth allwn ni ei ddysgu ar yr ynysoedd yma o'r ymateb hwn?
- Defnyddiwch adnodd CTBI '[Duw Gyda Ni/God With Us](#)' er mwyn cynnwys gweddïau dros ffoaduriaid yn eich addoliad.
- Mae Sul Noddfa (25 Mehefin 2023) yn gyfle i eglwys ym Mhrydain ac Iwerddon hyrwyddo'r rhaglen Eglwys Noddfa, ac adeiladu diwylliant o groeso, lletygarwch a diogelwch yn ein heglwys. Mae'r adnodd '[Lletygarwch a Noddfa i bawb](#)' yn cynnig myfyrdodau, gweddi a syniadau ar gyfer gweithredu ar Sul Noddfa.

Gweddi

Dduw cariadus,

Gweddiwn y bydd cyflwr y ffoadur yn cwrdd â chyfiawnder a thosturi.

Bydded i'r Eglwys fod yn fan lle gall pawb ddod o hyd i noddfa, a lle gall y sawl sydd wedi dioddef wrth i'w hurddas gael ei wadu ddod o hyd i letygarwch, parch a gwellhad.

Diolchwn am y ffyrdd niferus mae newydd-ddyfodiaid wedi cyfoethogi ein cymunedau, ac am ddieithriaid a ddaeth yn gyfeillion.

Rho gymorth i ni ddod â'r trais a'r anghyfiawnder sydd yn gyrru pobl o'u cartrefi i ben.

Gwylia dros y rhai a orfodwyd i ddilyn teithiau peryglus.

Tywys nhw i fan lle byddant yn ddiogel ac yn perthyn.

Amen.

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 5 Mawrth, am 7.30yb

Gŵyl Ddewi

Byddwn yn dathlu dydd Gŵyl Dewi, nawddsant ein cenedl. Gwnewch y pethau bychain fydd yn mynd â'n bryd ninnau yn y rhaglen yr wythnos yma. Daw'r canu mawl o Gapel Bwlchgwyt, Tregaron, dan arweiniad Delyth Hopkins Evans.

BBC radio cymru

Caniadaeth y Cysegr

Sul, 5 Mawrth, am 7:30yb a 4:30yp

R. Alun Evans yn cyflwyno emynau ar y thema 'Cymdeithas'

Sul, 5 Mawrth, am 12:00yp

Oedfa dan arweiniad Tim Webb, Dolgellau

Rhyfel Wcráin – flwyddyn yn ddiweddarach

Mae'r dinistr yn Wcráin wedi dod yn llun rhy gyfarwydd i ni bellach. Er hynny, mae'n bwysig nad ydym yn normaleiddio'r hyn sy'n digwydd, ond yn sicrhau ein bod yn cofio mai pobl a theluoedd sy'n dioddef fwyaf yn y rhyfel hwn, fel ym mhob rhyfel.

Yr hyn sy'n druenus yw fod yna flwyddyn gyfan o ryfel wedi mynd heibio ac nad oes rhyw lawer o newid na chadoediad wedi digwydd. Ac fel ym mhob rhyfel, fe ddaw yna gyfnod o drafodaeth ddiplomataidd fydd yn dod â diwedd i'r gwrthdaro gwaedlyd hwn. Felly, dylem barhau i edrych i weld sut y gallwn greu cymod a chreu heddwch hirdymor yn yr ardal ansefydlog hon.

Angharedig fydd dedfryd hanes ar benderfyniad Putin i ymosod ar Wcráin a'i arlywyddiaeth yn gyffredinol. Pan ddaw'r amser, bydd y troseddau rhyfel yn ddedfryd ar yr hyn sydd ar ddiwedd.

Mae cost economaidd y rhyfel i Wcráin yn syfrdanol, ac mae'r wlad bellach yn ddibynnol ar gymorth dyngarol rhyngwladol, tra mae sancsiynau wedi crebachu economi Rwsia i ganran fach o'i phŵer blaenorol. Er hyn, mae'n debygol o dyfu yn y flwyddyn nesaf wrth iddi ddatblygu'n economi mewn rhyfel, a hwnnw'n dwf mwy nag a welir yn economi'r Deyrnas Unedig. Ond mae hynny o bosib yn dweud mwy am sefyllfa wleidyddol Prydain na dim arall. Mae yna gwestiynau sydd angen eu hateb o hyd am berthynas economi Rwsia a Llundain, gyda phapurau Ewropeaidd yn galw'r brifddinas yn *Londongrad* yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r Deyrnas Unedig wedi cyflenwi £2.3 biliwn o gymorth milwrol i Wcráin ers dechrau'r rhyfel, ond nid ydym yn gwybod beth yn union mae'r cymorth hwnnw'n ei gynnwys. Nid yw'r llywodraeth wedi [datgelu'r wybodaeth](#), ond cafwyd un honiad bod 25,000 o filwyr Rwsia wedi marw o ganlyniad. Dywedir bod y gwrthdaro wedi anafu neu ladd [180,000 o filwyr Rwsiaidd](#), [100,000 o filwyr Wcráin](#) a [40,000 o bobl ddiniwed](#). Mae yna wastad bris mwy ar ryfel.

Mae yna [bwysau cynyddol ar wledydd y Gorllewin](#) i barhau i fuddsoddi a chefnogi

Wcráin drwy gefnogaeth a gwariant milwrol, sy'n golygu bod y ganran o GDP y gwledydd hyn yn cynyddu heb lawer o drafodaeth yn ei chylch. Amlinellodd Ffrainc gynlluniau ar gyfer hwb mawr i'w lluoedd arfog, yn rhannol oherwydd y rhyfel yn y Wcráin, gan ddweud y byddai'r gyllideb yn cynyddu i €413bn (£360bn) rhwng 2024 a 2030, cynnydd o €295bn. Mae'n hanfodol nad yw hyn yn dod yn norm newydd, lle mae arfau yn cael blaenoriaeth dros wasanaethau hanfodol gwlad. Yn wahanol i'r naratif yma, mae nifer o wledydd De America wedi gofyn am heddwch a gwrthod cynnig cymorth arian ond yn hytrach gymorth dyngarol, gydag Arlywydd Brasil, Luiz Inácio Lula da Silva, yn

nodi nad oes digon o drafodaeth dros heddwch wedi bod.

Yn ôl araith ddiweddaraf Putin, mae'n debygol na fydd diwedd ar y gwrthdaro. Ac mi ddylai ei fygythiad cyson i ddefnyddio arfau niwclear godi braw ar bawb, gyda photensial y fath arf i greu dinistr nad yw dynoliaeth wedi ei brofi o'r blaen, ac a fyddai'n effeithio ar bobl ar draws y byd.

Mae arbenigwyr yn nodi bod gan y rhyfel y potensial i barhau am flynyddoedd, ond bydd yr wythnosau nesaf hyn yn rhai hollbwysig. Mae'n hanfodol ein bod yn parhau i edrych am opsiynau i greu amodau ar gyfer heddwch er budd pobl Wcráin – ac osgoi peri i'r rhyfel ymledu.

*Rhun Dafydd
Cadeirydd Cymdeithas y Cymod*

TRAFODAETHAU RŴAN – NID MWY O RYFELA

Mae Cymdeithas y Cymod yn galw am gadoediad ar unwaith yn Wcráin i adael lle ar gyfer trafodaethau a diplomyddiaeth.

Safwn mewn undod gyda mudiadau heddwch yn Rwsia, Wcráin, America a gwledydd Ewrop a rhannwn eu datganiadau dros heddwch, y ffordd ddi-drais a'r hawl i wrthwynebiad cydwybodol.

Mae Mudiad Gwrthwynebwyr Cydwybodol i wasanaeth milwrol yn Rwsia'n 'galw ar filwyr Rwsia i beidio cymryd rhan yn y gwrthdaro ... pob recriwt i wrthod gwasanaeth milwrol ac i wneud cais am wasanaeth sifil amgen'

Mae Mudiad Heddychwyr Wcráin yn 'galw ar arweinwyr Rwsia ac Wcráin a'u lluoedd arfog i sefyll yn ôl ac i eistedd wrth y bwrdd trafod. Dim ond mewn ffordd ddi-drais y gellir sicrhau heddwch yn Wcráin ac ar draws y byd. Mae rhyfel yn drosedd yn erbyn y ddynoliaeth. Felly rydym yn benderfynol o beidio cefnogi unrhyw fath o ryfel ac i ymdrechu i symud ymaith pob achos rhyfel'

Mae Cymdeithas y Cymod yn condemnio gwleidyddion Cymreig a Phrydeinig sy'n cynyddu'r tensiynau a bwydo fflamau casineb a gwrthdaro. Galwn ar ein haelodau etholedig i weithio dros heddwch ac i sicrhau cymorth dyngarol a lloches ddiogel i ffoaduriaid yn hytrach nag anfon arfau i ychwanegu at yr ymladd.

BETH FEDRWCH CHI EI WNEUD?

1. Ysgrifennu at neu gyfarfod eich aelodau etholedig yn Llundain a Chaerdydd.
2. I gymryd rhan mewn ymgyrchu a gweminarau, cysylltwch am fwy o wybodaeth cymdeithasycymod@gmail.com
3. Ymaelodi fel heddychwyr mewn solidariti gyda'r rhai sy'n gwrthwynebu y galw i ymladd

Dyma gyfarfod hyfryd iawn

O ble y daw fy nghymorth?

Eryn 120 'Disgwyliaf o'r mynyddoedd draw'

Mewn byd o derfysg ac ofnau, o ryfel a phryder, daw'r cwestiwn parhaus i ni: 'O ble daw cymorth i mi?' Mewn bywydau sy'n ddyddiol yn syrthio i bechodau mawr a mân, cyfyd y gwyn unig: 'O ble daw cymorth i mi?' Ac yng nghalonau pobl yr Arglwydd, pobl sydd am fod yn ffyddlon iddo, ond sy'n colli hyder yng nghanol sychder ysbrydol ein hoes, daw'r un cwestiwn i'n plagio: 'O ble y daw cymorth i ni?'

Nid mewn amgylchiadau nac uchelfannau cysegredig, nid yn nhrifgan ysbrydoedd a grymoedd cyntefig y cyfyd gobaieth. Daw popeth sydd o werth oddi uchod, o ffyddlondeb Duw i'w bobl. Amen.

Darlenniad – Salm 121

Gweddi

O Dduw, greawdwr y bydysawd a gwaredwr dy bobl, rhyfeddwn nad wyt yn caniatáu i'th blant lithro ac nad wyt ti byth yn hepiant nac yn esgeulus ohonom. Diolchwn i ti dy fod yn gwyllo'n mynd a'n dod yn awr a hyd byth. Nesâ atom drachefn drwy dy Ysbryd ac ysgrifenna air dy addewid yng Nghrist ar ein calonnau 'mewn llythrennau eglur, clir'. Gogonedda dy enw, Arglwydd, yn ein plith. Amen.

Eryn 580 'O Dduw, rho i'm dy Ysbryd'

Darlenniad – Ioan 3:1-18 'Gwybod, gweld a byw'

Nos oedd hi pan ymwelodd Nicodemus ag Iesu. Tywyll hefyd oedd ei galon pan aeth at Iesu i geisio ... i geisio beth?

Efallai na wyddai Nicodemus ei hun pam yr aeth at Iesu'r noson honno. Roedd yn arweinydd crefyddol o bwys ac yn ŵr y byddai eraill yn gofyn am gyngor ganddo ar faterion ysbrydol neu ddehongliad uniongred o'r Ysgrifurau a'r traddodiad. Credai ei fod yn 'gweld', yn deall. 'Fe wyddom iti ddod yn athro oddi wrth Dduw,' meddai ac roedd yr 'arwyddion' hefyd yn cadarnhau cred nifer ('fe wyddom' – yn y lluosog) fod i ddysgeidiaeth Iesu awdurdod. Roedd yn deilwng o'r enw 'Rabbi', er na fu Iesu erioed yng ngholegau'r Phariseaid nac yn eistedd i astudio wrth draed Athrawon y Gyfraith.

Ni chafodd Nicodemus guddio'r tu ôl i'w wybodaeth na'i statws.

Yn ei ateb, dadlennodd Iesu i Nicodemus mai dallineb oedd ei wybodaeth mewn gwirionedd. Mor sobr o bersonol oedd ei ateb. Os ceisiodd Nicodemus guddio'r tu ôl i'r 'gwyddom' cyffredinol, mynnai Iesu ei gyfarch yn bersonol. 'Rwy'n dweud wrthyti' – wrthyti ti, athro gwybodus yn Israel bod yna 'wir' (gweler adn. 3,5,11) nad wyt wedi dechrau ei ddirnad.

Dod at Iesu a'i ffon fesur ddeallusol, ddaearol a wnaeth Nicodemus. Ond categorïau annigonol oeddynt i ddirnad realiti'r gogoniant nefol a safodd o'i flaen. Ddaearol oedd bryd a mesurau Nicodemus.

Rhaid oedd wrth fywyd newydd a 'genedigaeth newydd', meddai Iesu. Genedigaeth 'oddi uchod' ydoedd, dechrau newydd drwy waith yr Ysbryd. Dyma newid oedd yn gwbl angenrheidiol. Disgwyliai'r Phariseaid, a Nicodemus, mae'n siŵr, yn eu plith, y câi pob lddew nad oedd wedi gwadu ei dras na'i ffydd yn llwyr fynediad i'r deyrnas nefol yn niwedd yr amseroedd. Cyn i unrhyw un fedru hyd yn oed 'weld' na chael mynediad i'r deyrnas nefol, roedd yn 'rhaid' profi genedigaeth ysbrydol newydd.

Mor gyfyng oedd dealltwriaeth Nicodemus. Mor gaeth yw ein meddyliau ninnau.

'Sut gall hynny ddigwydd?' meddai Nicodemus. Mor rhydd yw meddwl am ddull y geni pan ddylem ryfeddu at wyrth y bywyd newydd a grëwyd drwy'r Ysbryd.

Onid oedd Nicodemus, fel athro, wedi darllen ac astudio, ac wedi ceisio deall addewidion Duw drwy'r proffwydi am dywalltiad yr Ysbryd fel arwydd (yn ôl Joel) bod nerthoedd y'dyddiau diwethaf' wedi eu rhyddhau yn y byd. Deuai'r Ysbryd yn rhodd gan Dduw ar ei bobl fel 'dŵr' i'w golchi a'u hadfywio, neu fel 'awel' i ddeffro'r esgyrn sychion. Neu efallai y dôi fel grym mewnol a fedrai drawsnewid calonnau oer a chaled i fod yn galonnau byw, neu fel trugaredd a fyddai'n adnewyddu ysbryd union yng nghalonau pobl (Eseia 44:3, 59:21; Eseciel 11:19, 20; 36:26-7; Joel 2:28-9; Salm 51:10).

Wrth gwrs ei fod yn cofio! Ond mae'n amlwg nad oedd Nicodemus wedi deall dim mewn gwirionedd am waith yr Ysbryd oedd fel awel fwyn, adfywiol, i'w phrofi yn nhrymder yr haf, neu fel corwynt difaol yn stormydd y gaeaf. Rhwydd oedd adnabod dylanwad neu effaith yr Ysbryd er na ellid ei

gaethiwo na'i weld. Honnai ddealltwriaeth uwch, fel 'athro yn Israel', a gallu i ddirnad cyfrinach symlaf 'bywyd tragwyddol'. Nid oedd, fodd bynnag, wedi dirnad, mewn gwirionedd, fod y grymoedd tragwyddol, parhaol, a gâi eu profi yn eu llawnder, yn unol â'i ddisgwyliadau, ar ddiwedd amser, yn awr, yn nyfodiad Iesu Grist wedi dod eisoes, yn fywyd i'w brofi yn awr.

Y mae clywed geiriau 'bywyd tragwyddol', bywyd yn ei holl gyflawnder, nerth yr 'atgyfodiad a'r bywyd', a blasu 'bara'r bywyd', oll yn fendithion i'w profi (yn ôl Efengyl Ioan) yn yr Arglwydd Iesu Grist, a thrwyddo. Deallwn hefyd fod cyswllt annatod rhwng 'dyrchafiad' Iesu ar y groes a nerth y bywyd hwn.

Y mae bob amser ganlyniadau angheuol i ni wrth i ni gefnu ar lwybrau bywyd. I'r rhai a gefnodd ar eu Harglwydd yn yr anialwch, daeth pla o seirff gwenwynig i'w brathu (Numeri 21:4-9). Darparwyd gwaredigaeth iddynt rhag y seirff pan gododd Moses, mewn ufudd-dod i'r Arglwydd, sarff o bres yng ngŵydd ei bobl. Wrth edrych ar y sarff bres a ddyrchafwyd, cafodd y rhai a sylodd arno, drwy ffydd, eu gwaredu.

I blâu byd o dywyllwch ac o anwybodaeth, o wrthryfel a difodiant, disgynnodd ac fe ddaeth Mab y Dyn atom. I 'Fab y Dyn', yng ngweledigaeth Daniel, y perthyn y llywodraeth, y gallu a'r awdurdod dros bob un, ym mhob oes, a thrwy bob oes. Y Mab y Dyn hwnnw yw'r un a ymostyngodd i rodio llwybrau ein haniaiwch ac a fyddai, drwy ddyrchafiad ar groesbren arw, yn waredwr i bob un a edrychai arno:

Ar y groes dyrchafwyd Iesu,
Fel y sarff ar drostan hir;
Ac fe dyn aneirif luoedd
Ato'i Hun ar fôr a thir:
Byth ni cholli
Neb a greddo ynddo Ef. (Pedr Fardd)

Yn wir, dyma sut y dangosir dyfnder cariad Duw, meddai Ioan. Ond heb yr enedigaeth ysbrydol, oddi uchod, heb ddealltwriaeth neu fywyd newydd, ni 'welwn' gymaint a wnaed drosom. Ond drwy allu'r Ysbryd cawn 'weld' a chredu, a thrwy fwrw ein ffydd yn llwyr arno ef, dechreuwn ddeall brofi cariad sydd uwchlaw pob cariad.

Beth am ddarllen yn ofalus, cyn canu'n hyderus, fyfyrdod Isaac Watts am ryfeddod 'edrych ar dy groes'?

Eryn 495 'Wrth edrych, Iesu, ar dy groes'

RWJ

Cyhoeddir Cenn@d ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr Cenn@d yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [t @CennadCymru](https://twitter.com/CennadCymru)